Cenn@d

CHWEFROR 21 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 156

‘Emynau Coll y Werin’ – Lleuwen Steffan

Peth rhyfedd, am wn i, ydy disgwyl yr annisgwyl. Ond yn sicr dyna oedd fy mhrofiad i wrth edrych ymlaen at berfformiad Lleuwen Steffan yn y Morlan, Aberystwyth. A ches i mo fy siomi.

Mae yna hen gêm, yn does, pwy fyddai’ch cwmni delfrydol chi dros ginio? Fy ateb parod i bob amser ydy Steve Eaves, Lleuwen a Manon. Allwn i ddim dychymyg cwmni hyfrytach na difyrrach. Dwi rioed wedi siarad efo’r tri gyda’i gilydd ac fe hoffwn i weld y berthynas rhyngddyn nhw. Achos o ran eu bywyd celfyddydol, cyhoeddus, dwi’n gweld themâu tebyg yn rhedeg drwy eu gwaith ond hefyd drwy eu personoliaethau. Un o’r pethau hynny ydy eu hysbrydolrwydd nhw.

Maen nhw wedi eu gwreiddio yn y traddodiad Cymraeg a Chymreig (er mai ein lwc aruthrol ni ydy mai yma y dewisodd Steve fwrw’r gwraidd hwnnw), ond heb eu llyffetheirio ganddo fo chwaith (am yr un rheswm, efallai).

Petai enwadaeth yr unfed ganrif ar hugain yn gymeriad mewn mytholeg Roegaidd – fel Sisyphus yn gwthio craig i fyny mynydd dro ar ôl tro – fe fyddai ein cymeriad ni wedi ei dynghedu i gerdded ymlaen gan edrych am yn ôl yn dragwyddol.

Mae’r berthynas yna rhwng y gwraidd a’r blagur, rhwng bod yn ymwybodol o’r gorffennol ond yn gallu cadw ein llygad ar y lôn ymlaen, yn dyngedfennol.

A dyna graidd y perfformiad i mi.

Yn fras, fel dywedodd hi ar y dechrau – mewn oes ôl-Gristnogol, sut mae edrych ar ein traddodiad i weld be ydyn ni wedi ei ennill, be ydyn ni wedi ei golli a sut allwn ni symud ymlaen.

Roedd ffurf a chynnwys ei pherfformiad yn clymu i gyfleu hyn.

Llun: MCPhotographie29

Ei phresenoldeb etheraidd hi ei hun yn canu deuawd gyda’r gorffennol, yn drosiadol ac yn llythrennol.

Cododd leisiau o’r gorffennol a defnyddio’r dechnoleg ddiweddaraf i ganu deuawd gyda nhw. Weithiau doedd dim modd gwahaniaethu rhwng y ddau lais, rhwng y gorffennol a’r presennol; dro arall roedd yna wrthdaro.

Dechreuodd drwy ailadrodd un llinell o emyn – ‘o am dreiddio i’r adnabyddiaeth’; ailadroddodd hi fel *mantra*, a dyna osod y trywydd. Treiddio i adnabyddiaeth o draddodiad ond treiddio i adnabyddiaeth ysbrydol ddyfnach yn ogystal.

Roedd ei brwdfrydedd dros ei thestun yn amlwg – fyddai’n well gen i ar brydiau fod wedi clywed mwy o’r cynnyrch na’r cefndir, nid nad oedd o’n eithriadol o ddiddorol. Ond yn bwysicach na hynny oedd ei pharch amlwg hi at yr unigolion yr oedden ni’n clywed eu lleisiau nhw. Roedd hi’n eu trin nhw fel y byddech chi am iddi drin eich hen nain, gyda gofal, parch a chariad.

Geiriau ola’r perfformiad oedd: ‘Tra bydda’ i byw, bydd dy gân o fewn clyw. Amen.’

Eto’r amwysedd o gyfeirio at y traddodiad, at yr unigolion yr oedd hi’n rhannu’r llwyfan gyda nhw, ac at Grist.

‘Mae dynoliaeth yn methu,’ meddai Lleuwen wedyn. ‘Sgen i ddim ateb ond ’dan ni’n addoli’r pethau rong. Er, dwi ddim yn gwybod be ydy’r peth iawn i’w addoli chwaith.’

A dyna, efallai, fyddai man cychwyn fy sgwrs i dros banad efo hi a’i thad a’i chwaer.

Rocet Arwel Jones

Hyfforddiant Gemau difyr a hwyliog yng Ngholeg y Bala
Tudalen 2

O’r Llwyfan – Oedfa Ilston 2024
Judith Morris
Tudalen 3

Cytûn
Eglwysi ynghyd yng Nghymru
Tudalen 7

Hyfforddiant Gemau difyr a hwyliog yng Ngholeg y Bala

Trefnwyd yr hyfforddiant gan Goleg y Bala, wedi ei gydlynu gan Angharad Clwyd (Swyddog Cynorthwyol Coleg y Bala). Siôn Morris (Gweithiwr Plant ac Ieuenctid) a Cameron Jones (Is-warden Coleg y Bala) fu'n cynnal yr hyfforddiant, oedd wedi'i seilio ar y 'Llawlyfr Gemau' a gynhyrchwyd gan Siôn, Cameron ac Angharad a'r bag offer gemau a ddarparwyd ganddynt.

Daeth deunaw, yn blant, pobl ifanc ac oedolion, i'r Bala yn cynrychioli sawl Henaduriaeth yn cynnwys Arfon, Ceredigion a Gogledd Penfro, Conwy a Dyfrdwy, Dyffryn Clwyd, Gorllewin Gwynedd a Môn. Yn dilyn gair o groeso a phaned a chacen, cawsom air o weddi cyn i Siôn egluro pwrpas yr hyfforddiant.

Mae'r 'Llawlyfr Gemau' yn cynnig 38 o wahanol gemau y gellir eu defnyddio mewn gweithgareddau gyda phlant a phobl ifanc mewn ysgolion Sul a chlybiau plant/pobl ifanc. Trefnir y gemau yn 'Gemau Actif' a 'Gemau Ysgafn', a cheir rhestr o'r offer sydd yn y bag gemau.

Cawsom brynhawn difyr a hwyliog yn mynd trwy'r gemau a'r offer, gan roi cynnig ar ambell gêm. Un ohonynt oedd 'Mathew, Marc, Luc a Ioan', sef gêm ar gyfer oedran ysgol gynradd sydd ymhlith y 'Gemau Actif' yn y llawlyfr.

Gêm arall a chwaraewyd oedd 'Cwpan Ping-pong', gêm 'actif' ar gyfer oedran yr ysgol uwchradd sy'n defnyddio'r cwpanau a'r peli ping-pong sydd yn y bag gemau. Cawsom lawer o hwyl hefyd yn chwarae 'Dwyn y Banana', gan ddefnyddio'r banana plastig sydd yn y bag gemau. Dyma gêm sy'n addas ar gyfer oedrannau ysgolion cynradd ac uwchradd.

Cynhaliwyd yr hyfforddiant yn y Gymraeg gan ddefnyddio'r llawlyfr Cymraeg. Bwriedir darparu'r llawlyfr hefyd yn Saesneg a threfnu hyfforddiant tebyg yn Saesneg os byddai galw am hynny. Bwriedir cyhoeddi'r llawlyfr hefyd ar y we ar dudalennau Plant ac Ieuenctid EBC.

Gellir archebu'r llawlyfr a'r bag gemau am bris cost prynu'r offer. Mae'n fuddsoddiad da wrth ystyried cymaint o gemau a ddisgrifir yn y llawlyfr a'r oriau llawn hwyl a geir yn defnyddio'r offer. Am fwy o wybodaeth ac i archebu'r llawlyfr a'r bag gemau, cysylltwch ag Angharad yng Ngholeg y Bala: colegybala@ebcpcw.cymru.

Siôn Morris, Angharad Clwyd a Cameron Jones

Diolch yn fawr iawn i Angharad, Siôn a Cameron am drefnu ac arwain prynhawn difyr a hwyliog, ac i bawb a ddaeth i'r hyfforddiant a sicrhau ein bod yn cael prynhawn cofiadwy.

Bydd y llawlyfr a'r bag gemau a brynais ar gyfer Ceredigion a Gogledd Penfro yn cael eu hyrwyddo gan ein Pwyllgor Plant ac Ieuenctid. Byddant ar gael ar gyfer ysgolion Sul a chlybiau plant a phobl ifanc ein heglwysi … ac mae'n siŵr y caiff yr oedolion hefyd lawer o hwyl yn eu chwarae, fel y cefais innau yng Ngholeg y Bala!

Rhys Bebb Jones
Cydlynydd Hyfforddiant EBC

O'r Llwyfan – Oedfa Ilston 2024

Judith Morris

Nos Fawrth, 23 Ionawr, daeth dros ddeugain o bobl ynghyd i Oedfa Flynyddol Ilston. Cyn cyfnod y pandemig cynhelid yr oedfa ar safle Ilston yn Llanilltud ar Benrhyn Gŵyr i gofio ac i ddiolch am sefydlu'r eglwys gyntaf o Fedyddwyr neilltuol yng Nghymru gan yr arloeswr John Miles yn 1649. Ond am y tair blynedd ddiwethaf cafodd yr oedfa ei chynnal drwy gyfrwng Zoom a bu'r drefn newydd hon nid yn unig yn fodd o anrhydeddu'r gorffennol, ond i ganolbwyntio hefyd ar y gwaith cenhadol a gyflawnir heddiw mewn gwahanol rannau o Gymru.

Eleni, ffocws yr oedfa oedd Ynys Môn. Cyflwynwyd y defosiwn gan ein llywyddion presennol, Mr Bill Davies, Caerdydd, a'r Parchg Tim Moody, Risga, cyn i'r Parchg Ddr Densil Morgan sôn am hanes y genhadaeth fedyddiedig ym Môn, yr hyn a oedd yn ffrwyth diwygiad efengylaidd y ddeunawfed ganrif. Cyfeiriodd at weithgarwch gweinidogion fel Thomas Llywelyn, Dafydd Evans a Morgan Evans a fu'n allweddol yn cyflwyno'r genhadaeth fedyddiedig yn y gogledd. Yn naturiol, nid oedd modd cyfeirio at hanes y genhadaeth ym Môn heb sôn am ddylanwad aruthrol yr athrylith unllygeidiog o Landysul a fedyddiwyd yn Eglwys Aberduar, Llanybydder, sef Christmas Evans. Treuliodd Christmas dros ddeng mlynedd ar hugain yn gwasanaethu ar yr ynys a phlannodd nifer o eglwysi yno. Mae'n debyg mai dim ond ychydig dros gant o Fedyddwyr oedd ym Môn pan gyrhaeddodd yr ynys yn 1791, ond erbyn iddo adael ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach roedd tua tair mil o Fedyddwyr yno.

Yn dilyn cyflwyniad Densil, cawsom gyfle i glywed am gyfraniad y Parchg Deb Stammers i'r genhadaeth yno heddiw. Mae Deb yn rhannu ei hamser fel Gweinidog yn Eglwys New Park Street, Caergybi, tra'n gwasanaethu hefyd fel Gweinidog Cenhadol yng Nghymanfa Môn. Cyfeiriodd at y modd yr oedd yn gweithio nid yn unig gydag aelodau o fewn y strwythurau cyfundrefnol, ond hefyd gyda phobl oedd y tu allan i'r strwythurau hynny. Cychwynnodd Deb ar ei gweinidogaeth adeg y pandemig a chafodd gyfle i ymroi mewn gweddi ac i ddeisyf arweiniad Duw o ran cyfeiriad i'w gwaith. Ar ddechrau ei chyfnod, derbyniodd wahoddiad gan un o ficeriaid ardal Llanerchymedd i fynd ar daith gerdded gweddi ac o ganlyniad agorwyd sawl drws iddi.

Cyfeiriodd at y modd yr oedd gweinidogaeth genhadol yn broses araf iawn wrth ddod i adnabod pobl a bod llawer o'r hyn a wnâi yn 'weinidogaeth bresenoldeb'. Treuliai oriau yn cyfarfod â phobl mewn caffi lleol ac yn aml, fe ddeuai'r Efengyl yn rhan o'r sgwrs gan roi cyfle iddi ambell waith i offrymu gweddi. Unwaith bob pythefnos byddai'n mynd i un o'r ysgolion lleol a hynny yn ei dro yn arwain at gyfleon i gynnal oedfaon diolchgarwch, Sul y Cofio, y Pasg a diwedd tymor. Cyfeiriodd at y modd yr oedd hi hefyd wedi sefydlu 'seiadau' mewn dau o'r capeli a bod hynny wedi cynnig bendithion di-ri. Roedd y gwaith a gyflawnai wedi cael ei sylfaenu ar drefniadau rheolaidd a chyson ac yn sicrhau presenoldeb mewn cymuned er mwyn plannu hadau. Er nad oedd y ffrwyth bob amser yn amlwg, nid oedd unrhyw amheuaeth ganddi nad oedd Duw ar waith ar Ynys Môn heddiw.

Ieuan Wyn Jones, Cyn-ddirprwy Brif Weinidog Cymru, oedd yn gyfrifol am y trydydd cyflwyniad, a bu'n sôn am y gwaith a gyflawnid yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni, ar y cyd rhwng y Bedyddwyr a'r Presbyteriaid. Bellach roedd Capel Moreia wedi'i droi yn ganolfan gymunedol er ei fod hefyd yn parhau yn lle o addoliad. Dechreuodd y ddwy eglwys, Penuel a Moreia, gydaddoli tua deng mlynedd yn ôl gan rannu'r un weledigaeth a'r un cymhellion, sef sicrhau bod y ddwy eglwys yn ymateb i her genhadol yr oes gan wneud defnydd pwrpasol o'r adeilad. Gwerthwyd capel Penuel er mwyn canolbwyntio ar un adeilad a rhyddhau cyfalaf.

Datblygwyd Canolfan Glanhwfa er mwyn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ysbrydol yr oes ac yn arbennig anghenion pobl hŷn a'r rhai bregus, yn ogystal ag anghenion plant a phobl ifainc. Soniodd Ieuan fel yr oedd mwy o ddefnydd o'r adeilad heddiw nag ar unrhyw amser arall yn ei hanes. Roedd yna weithgaredd yn digwydd bob diwrnod o'r wythnos, gan gynnwys pedair noson ar hyn o bryd, a bellach roedd y cyfan yn ffurfio rhan greiddiol o dystiolaeth Gristnogol yr Eglwys.

Roedd gweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau'r trydydd sector yn allweddol i'r fenter ac erbyn hyn roedd pump partner yn gysylltiedig â'r Ganolfan, sef Age Cymru Gwynedd a Môn, Bwyd Da Môn, Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Adferiad a Mannau Cynnes. Roedd cynlluniau ar waith i addasu'r capel i greu gofod amlbwrpas ac i addasu tŷ'r gofalydd hefyd i fod yn Ganolfan Dementia Ynys Môn. Nododd fel yr oedd hi'n bwysig bod cenhadaeth yr eglwys heddiw yn cael ei gweld fel rhan o weithgarwch y gymuned yr ydym yn byw ynddi gan y gallai hynny o bosib ennyn ac arwain at fwy o ddiddordeb yng nghymdeithas a bywyd y capel.

Daeth y cyfarfod i ben mewn gweddi gan y Parchg Ieuan Elfryn Jones, Ysgrifennydd Cymanfa Môn.

Teg yw dweud y cawsom Oedfa Ilston arbennig a bu hanes ddoe a heddiw yn anogaeth i bawb a oedd yn bresennol. Diolch i Densil, Deb ac Ieuan am gyflwyniadau hynod ddiddorol ac am ein hysbrydoli o'r newydd i ymroi i waith y Deyrnas.

(Recordiwyd yr oedfa ac mae modd gwneud cais am gopi trwy ddod i gysylltiad â'r swyddfa: post@ubc.cymru).

Sefydlu Gweinidog Newydd yn Eglwys Mount Zion, Aberteifi

Ddydd Sadwrn, 27 Ionawr, hyfrydwch oedd cael bod yn bresennol yn Oedfa Sefydlu'r Parchg Anth Brown yn Eglwys Mount Zion, Aberteifi. Brodor o Loegr yn wreiddiol yw Anth ac fe'i hyfforddwyd yng Ngholeg Regent's Park, Rhydychen. Bu'n gwasanaethu yn Eglwys Morpeth, Northumberland, cyn symud i weinidogaethu mewn eglwysi yn Vancouver, Canada. Treuliodd dros ugain mlynedd yn gweithio ymhlith Bedyddwyr Gorllewin Canada, yn ogystal â darlithio yng Ngholeg Regent, Vancouver, ac yn ymwneud â nifer o asiantaethau a mentrau cenhadol. Estynnwn groeso cynnes iawn i Anth, a'i briod Helen, ac edrychwn ymlaen at gydweithio a dod i'w hadnabod yn well.

Deisyfwn fendith Duw ar y bennod newydd hon yn hanes Eglwys Mount Zion!

Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i ddweud y gwir wrth Lywodraeth India

Mae Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddwyn Llywodraeth India i gyfrif am eu triniaeth o Gristnogion ym Manipur.

Mae Manipur, talaith yng ngogledd-ddwyrain India, wedi cael sylw mewn adroddiad diweddar gan fudiad Drysau Agored yn tynnu sylw at lywodraethau mwyaf gormesol y byd. Mae Rhestr Gwylio'r Byd yn rhestru'r 50 gwlad lle mae Cristnogion yn wynebu'r erledigaeth a'r gwahaniaethu mwyaf eithafol ledled y byd. India yw rhif 11 ar y rhestr honno. Ac mae digwyddiadau ym Manipur yn rhan o'r naratif hwn o erledigaeth a gwahaniaethu, lle mae grŵp llwythol lleiafrifol, Cristnogol yn bennaf, wedi'u gyrru o'u tiroedd, eu cartrefi a'u heglwysi.

Fe dorrodd trais allan ar 3 Mai 2023 ar ôl i Orymdaith dros Undod gael ei threfnu gan fyfyrwyr ym Manipur i brotestio yn erbyn penderfyniad Uchel Lys Manipur i ystyried rhoi statws llwyth i gymuned Meitei. Roedd ofn y byddai statws o'r fath yn grymuso'r Metei i ymosod ar grŵp o lwythau lleiafrifol. Cafwyd gwrthdaro ffyrnig rhwng y Meitei a chymunedau Kuki-Zomi (llwythol). Amcangyfrifir bod y dorf derfysglyd wedi lladd dros 148 o Gristnogion ac anafu cannoedd. Yn ogystal, ymosodwyd ar bron i 400 o eglwysi, yn ogystal â dros 4,700 o adeiladau Cristnogol eraill. Ond nid yw'r ymosodiadau hyn wedi'u cyfyngu i ymosodiadau ar un grŵp llwythol. Roedd dros hanner y 400 o eglwysi yr ymosodwyd arnynt yn rhai Cristnogion Meitei – gyda 249 o'r rhain o fewn 36 awr gyntaf y terfysg.

Mae sefyllfa merched Cristnogol Manipur wedi bod yn arbennig o erchyll. Ar 19 Gorffennaf, gwelwyd fideo o ddwy fenyw Kuki yr ymosodwyd arnynt yn cael ei rannu'n helaeth ac yn eang ar-lein drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn wedi digwydd ar 4 Mai, ond dim ond ar ôl i waharddiad ar ddefnydio'r rhyngrwyd gael ei godi'n rhannol y daeth i'r amlwg. Cafodd y merched eu llusgo o fan heddlu gan dorf o lwyth gwahanol cyn eu dinoethi, eu gorfodi i gerdded yn gyhoeddus a dioddef ymosodiad rhywiol.



Dr Sharon Singsit-Evans

Dywedodd Dr Sharon Singsit-Evans, menyw o Manipur sy'n byw yn y Deyrnas Unedig:

'Mae'n rhaid i ni gofio yma nad rhywbeth rhanbarthol yw'r hyn sy'n digwydd ym Manipur. Mae yna ysgogiad gwleidyddol enfawr y tu ôl i hyn, gyda llywodraeth genedlaethol India yn Hindŵaidd, ac yn ei hanfod yn cael ei hysgogi gan gymhelliant i droi India yn wlad Hindŵaidd. Gallwch weld bod gan y llywodraeth ganolog y pŵer i dawelu'r trais hwn ac eto nid ydynt wedi gwneud hynny.'

Parch Nan Powell-Davies

Dywedodd y Parch Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru:

'Rydym wedi'n brawychu gan ymateb y llywodraethau gwladol a chanolog i'r digwyddiad. Dros ddau fis ar ôl y digwyddiad, doedd neb wedi'i arestio. Mae'n debyg bod yr heddlu bellach wedi agor achos ond mae'n druenus o araf. Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'u dylanwad rhyngwladol a chodi'r materion hyn gydag awdurdodau India. Er bod cysylltiadau masnach da yn bwysig, ni allant ddod ar draul hawliau dynol. Rydyn ni yng Nghymru yn disgwyl i lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig wneud y peth iawn a chodi llais ar ran degau o filoedd o Gristnogion sydd wedi cael eu gyrru o'u cartrefi, eu tir a'u heglwysi. Er bod cyfansoddiad India yn cael ei ddiffinio fel democratiaeth seciwlar, mae cenedlaetholdeb Hindŵaidd a hyrwyddir gan y Prif Weinidog Narenda Modi a'i blaid BJP yn edrych yn debyg iawn i lanhau ethnig. Mae miloedd o bobl Manipuri wedi'u dadleoli bellach ac yn byw mewn llochesi i ffoaduriaid yn nhalaith gyfagos Mizoram, ac y mae gennym gysylltiad hir a chyson â nhw.

Mae Cymru a gogledd ddwyrain yr India yn rhannu ffydd Gristnogol gyffredin, yn bennaf oherwydd Thomas Jones (1810–49), gweinidog Presbyteraidd Cymreig a aeth â'i deulu i dalaith Meghalaya ac a wnaeth gyfraniad mawr i wreiddio Cristnogaeth yno. Yn 2018, cyhoeddodd llywodraeth y dalaith honno y byddai'r 22 Mehefin yn cael ei ddathlu yno fel "Diwrnod Thomas Jones" bob blwyddyn.'

Mae'r cyfarfodydd gweddi a gynhelir drwy gyfrwng Zoom dros y sefyllfa ym Manipur yn parhau bob bore Gwener, a gellir cael dolen i ymuno drwy anfon neges at swyddfa.office@ebcpcw.cymru

Hwyl a Sbri yn Llangefni

Braint oedd cael cwmni tîm o fyfyrwyr blwyddyn gap o Goleg y Bala ym Mhlas Arthur, Llangefni, ar 11 Chwefror. Daeth dros 30 o blant o wahanol ysgolion Sul Ynys Môn at ei gilydd i gael hwyl a chlywed hanes Iesu yn porthi'r pum mil. Diolchwn i Dduw am waith y coleg a hyderwn y bydd mwy o blant yr ynys yn gallu mynychu cyrsiau'r coleg.

Alun Morton Thomas

Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 2 Toredig (Detholiad)

Gofyn Ymlaen Llaw: cwestiwn i'w ystyried cyn y sesiwn hon

Pwy yn eich bywyd fu'n gymydog ichi? Beth wnaethon nhw i'ch helpu chi?

Darlleniad o'r Ysgrythur: Luc 10: 25–37 'Y Samariad Trugarog'

Ystadegau

Mae 1 o bob 3 oedolyn anabl o oed gweithio yn byw mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig.
Ffynhonnell: Sefydliad Joseph Rowntree

Gofynnodd Arolwg ar Agweddau Cymdeithasol ym Mhrydain 2022 i bobl a fuasen nhw'n ystyried rhywun 'mewn tlodi' â'r disgrifiadau canlynol:

79% Yn cytuno	Methu fforddio bwyta na byw heb ddyled
66% Yn cytuno	Yn medru fforddio bwyta a byw ond yn methu fforddio anghenion eraill
39% Yn cytuno	Yn medru fforddio anghenion ond yn methu fforddio pethau eraill mae eraill yn eu cymryd yn ganiataol

Beth wnewch chi o'r disgrifiadau hyn o dlodi?

Myfyrdod
Sut fedrwn ni fynd i'r afael â chymdeithas doredig ac ymraniadau yn ein cyd-destun ninnau? Beth ydyn ni'n ei wneud i ddangos cariad at ein cymdogion? Pwy ydyn ni'n 'mynd heibio iddyn nhw ar yr ochr arall'?

Yn yr Efengylau, dywed Iesu nad ydy'r byd fel ag y dylai fod. Mae gweithredoedd pechadurus yn achosi niwed i ni ein hunain ac eraill. Mae angen maddeuant ac iachâd arnom i gyd. Nid neges i ddilynwyr Iesu yn y ganrif gyntaf oedd hon. Wrth inni edrych o'n cwmpas heddiw, fe welwn systemau toredig sy'n dwysáu dioddefaint ac yn cau pobl allan o gymdeithas. Nod y sesiwn ydy cynnal man agored lle y gall pob un ohonon ni siarad am yr hyn sydd wedi ei ddryllio yn ein byd, lle gwelwn ni dorri ac ymraniadau.

Yn ein darlleniad o Efengyl Luc, fe welwn ganlyniadau ymraniadau sy'n cael eu bwydo gan ofn. Wyddon ni ddim yn union pam fod yr Offeiriad a'r Lefiad yn y stori mor awyddus i frysio heibio'r dyn yr ymosodwyd arno ond mae'n ymddangos yn debygol i'w ymateb ddeillio'n rhannol ar sail ofn. Oedd arnyn nhw ofn fod y dyn eisoes wedi marw ac y byddai mynd ato efallai'n torri rheolau crefyddol yn ymwneud â delio â chyrff marw? Tybed oedden nhw'n ofni bod lladron yn dal yn y cyffiniau ac y gallen nhw fod yn dargedau hefyd? Oedden nhw ofni mai ffugio oedd y dyn ac mai rhyw fath o dric oedd hyn? Beth bynnag y rheswm, y cwestiwn oedd yn flaenaf yn eu meddyliau oedd: 'Os wna i oedi gyda'r dyn yma, beth fydd yn digwydd i mi?'* Os ydyn ni'n gwbl onest â ni'n hunain, efallai y gallen ni uniaethu â'r reddf hon i'n hamddiffyn ein hunain. Ond mae stori Iesu yn dangos inni sut y gall y cwestiwn hwnnw – 'beth fydd yn digwydd i mi?' – arwain at broblemau. Pan ddechreuwn ni osod ffiniau o amgylch ein cariad a'n consýrn, gan ganolbwyntio'n unig ar ein hunain a'n blaenoriaethau ni, byddwn ni'n troi'n bobl sy'n 'mynd heibio ar yr ochr arall'. Rydyn ni'n amddiffyn ein hunain ar draul rhywun arall.

*Gweler Dr Martin Luther King, Jr., '*I've Been to the Mountaintop*', araith a draddodwyd ym 1968 ym Memphis, Tennessee.

Soniodd Dorothee Sölle, diwinydd o'r Almaen, pa mor rhwydd ydy hi i fyw fel 'un sy'n mynd heibio', yn enwedig yn yr oes fodern. Mae llawer ohonon ni'n dibynnu ar bobl sydd mewn swyddi cyflog isel neu sefyllfaoedd o lafur gorfodol, i wasanaethu ein hanghenion. Efallai ei bod hi'n haws i ni os ydy'r bobl hyn yn anweledig – medrwn 'fynd heibio' yn ddifeddwl. Er enghraifft, gall y cadwyni cyflenwi sy'n ein bwydo a'n dilladu fod yn anodd eu datod a'u deall. Welwn ni mo'r gweithwyr dillad ar gyflogau isel wrth inni ddewis ein dillad am y diwrnod na'r ffermwyr hynny sydd yn rhwymau dyled wrth inni hwylio'n te amser brecwast.

Dydy her y stori a adroddodd Iesu ddim yn gorffen gyda'r cwestiwn ynghylch p'un a ydyn ni'n debyg i'r rhai hynny aeth heibio. Samariad oedd y person a aeth i helpu, a'r awgrym yn y stori ydy mai Iddew oedd y dyn sydd wedi'i anafu. Fe fyddai Iesu'n ymwybodol iawn o'r tensiynau gelyniaethus oedd yn bodoli rhwng y Samariaid a'r Iddewon yng nghyd-destun y cyfnod. Fel y croesodd y Samariad y ffordd i helpu, felly mae Iesu'n tywys ei wrandawyr i groesi'r rhaniad rhwng cymunedau'r Samariaid a'r Iddewon. Yn y modd yma, mae'r ddameg yn gwthio'n ôl yn erbyn disgwyliadau'r gynulleidfa. A oes gofyn i ninnau fod yn agored i her debyg i'n rhagdybiaethau a'n rhagfarnau ninnau?

Gadewch inni edrych yn agos ar weithredoedd y Samariad. Wrth weld y dyn â'i anafiadau, fe 'deimlodd drueni drosto'. Nid 'Beth fydd yn ddigwydd i mi?' ond 'Beth fydd yn digwydd i'r dyn yma os af fi heibio?' oedd cwestiwn y Samariad. Mae'n aros ac yn gweithredu. Mae'n trin y dyn yr ymosodwyd arno ac y lladratwyd oddi arno ac yn darparu er ei les, a hynny'r tu hwnt i'w angen ar y pryd.

Y Samariad oedd yr un a 'ddangosodd … drugaredd'. Mae'r gair trugaredd yn cyfleu caredigrwydd cariadus dwfn, empathi, tosturi, parodrwydd i estyn allan. Dyma'r hyn mae Duw'n ei gynnig inni, mewn perffeithrwydd, a'r hyn y mae Duw'n gwahodd y ddynoliaeth i'w adleisio yn ei hymddygiad tuag at ei gilydd.

Mae Iesu'n adrodd stori'r Samariad Trugarog mewn ymateb i gwestiwn cyfreithiwr ynglŷn â charu ein cymdogion fel ni ein hunain. Mae'r cwestiwn 'Pwy ydy fy nhymydog?' yn awgrymu'n syth ryw ymraniad rhwng y rhai hynny y gellid eu cyfri'n gymwys i fod yn gymdogion – pobl y byddwn fel arfer yn dangos trugaredd a thosturi tuag atyn nhw – ac eraill, o'r tu allan.

Gwrandewch: Stef Benstead, Ymgyrchydd Anabledd –

https://soundcloud.com/actonpoverty (8 munud).

Mae Stef yn trafod y trafferthion dyddiol sy'n wynebu pobl ag anableddau wrth geisio ymlwybro drwy systemau sydd wedi torri. A ydych chi, neu rywun rydych chi'n ei nabod, wedi profi anabledd? A ydy profiad Stef yn canu cloch gyda chi? Awgryma Stef ein bod weithiau'n teimlo'n fwy cyfforddus gydag 'elusen' na 'chyfiawnder'. A ydych chi'n cytuno?

Gwrandewch ar: Y Tad Osvaldo Concepción Marte, SJ, Centro Montalvo –

https://soundcloud.com/actonpoverty (6 munud)

Mae'r Tad Osvaldo yn siarad am waith Centro Montalvo, y mudiad dros weithredu cymdeithasol ar ran Cymdeithas Iesu (*the Society of Jesus*) yng Ngweriniaeth Dominica. Mae'n cyfeirio at y dull 'Gweld, Meddwl (neu Farnu), Gweithredu' sydd i'w gael ym meddylfryd Cristnogol America Ladin. **Meddyliwch eto: beth wêl y Samariad? Beth sy'n mynd trwy ei feddwl? Sut mae'r hyn mae'n ei weld ac yn ei feddwl yn ei arwain at weithredu?**

(parhad ar y dudalen nesaf)

Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 2 Toredig (Detholiad)
(parhad o dudalen 6)

Ysbrydoliaeth: Tair eglwys yn creu mannau croeso

Gwyliwch ein ffilm fer (5 munud) yma: https://youtu.be/2fpihBoAsHo
Mae'r ffilm fer hon yn eich gwahodd i glywed gan dair eglwys o wahanol rannau o Loegr sy'n ymateb i'w cyd-destunau trwy greu mannau croesawu i'r rhai hynny sydd wedi profi'r teimlad o gael eu cau allan.

Taclo Tlodi – Beth allech chi a'ch eglwys yn ei wneud?

Yn y sesiwn hon, fe gawson ni'n hysbrydoli gan waith eglwysi ledled Lloegr. Wrth inni agosáu at Etholiad Cyffredinol eleni, beth ydy rôl yr eglwys yn yr alwad am drugaredd a thosturi gan y rhai hynny mewn grym sy'n cydnabod ac yn cadarnhau urddas dynol pawb?

Cam 1: Canfod mwy am y dull Gweld, Barnu, Gweithredu: https://grassroots.caritas.eu/see-judge-act/

Mae'r dull hwn yn eich helpu i edrych yn agosach ar faterion cyfiawnder cymdeithasol; i feddwl sut y gall ein ffydd lunio ein hymateb i'r materion hyn; ac i gynllunio beth i'w wneud i wireddu newid. Ceisiwch ffordd i ymgorffori'r dull hwn yng ngwaith eich eglwys. A ydych chi eisoes yn ymwneud â gweithredu cymdeithasol? A all y dull hwn eich helpu i ganfod ffyrdd newydd ymlaen?

Cam 2: Os ydyn ni am ddylanwadu ar y rhai hynny mewn grym, mae gofyn inni wybod beth ydy eu barn. Dechreuwch trwy adeiladu ffeil o ffeithiau am y rhai hynny sydd â grym yn eich hardal chi – megis cynghorwyr a chynrychiolwyr seneddol.

Gweddi i Gloi – Taclo Tlodi – Gweddi'r Eglwys

Drindod Sanctaidd, ti ydy'r un sy'n rhoi urddas i bawb,
Atgoffa ni ein bod wedi ein trysori gennyt ti.
Dduw Cariad, ti ydy'r un sy'n codi'r dinod,
Atgoffa ni am y rhai o'n mysg nad ydy eu gwerth yn weledig.
Iesu, ti sy'n dod â newyddion da i'r tlodion,
Atgoffa ni i estyn allan am gyfiawnder i bawb.
Ysbryd Glân, ti sy'n rhyddhau'r rhai sy'n gaeth, yn ein herio ac yn ein hysbrydoli,
Galluoga ni i adeiladu cymdeithas lle mae pawb yn perthyn. Amen.

Urzula Glienecke

O Gefn Gwlad

Y llall

Er mor wahanol yw pob un ohonom i'n gilydd, eto rydym yn debyg hefyd. Yr ydym, dybia i, yn chwilio am gysur mewn bywyd, yn chwilio am sicrwydd, ac yn ei ddarganfod mewn gwahanol bethau a gwahanol leoedd. Y mae'r dyhead yn ein gwneud yn debyg; y mae bodloni'r dyhead hwnnw'n ein gwneud yn wahanol.

Y mae sawl un o'n beirdd a'r mwyafrif o'n hemynwyr wedi ceisio mynegi'r cysur a gaed ganddynt yn Nuw. Af i ddim i ddyfynnu, mae *Caneuon Ffydd* yn llawn o'r emynau hyn. Yn hytrach, rwyf am dynnu sylw at un gerdd nodedig gan un o feirdd gorau Cymru.

Collais nith beth amser yn ôl. Mair, person arbennig, a'i hoff gerdd oedd 'The Other' gan R. S. Thomas.* Fe'i darllenwyd yn hynod effeithiol yn ei hangladd yn Llangollen gan y Parchedig Aled Lewis Evans.

Yn y gerdd hon ceir y gwirionedd yr adeiladodd Mair ei bywyd arno, y sylfaen a roddodd obaith a chadernid iddi gydol ei hoes, a'r sicrwydd gafodd hi yn ystod ei chystudd olaf.

Cerdd ydyw lle mae'r bardd yn effro ac yn myfyrio yn ystod oriau'r nos. Mae'n gwrando ar y synau ddaw iddo drwy'r tywyllwch mewn nosau sydd mor llonydd dawel fel y gall glywed y dylluan fechan yn galw o bell a'r llwynog yn cyfarth filltiroedd i ffwrdd.

Mae'n clywed hefyd sŵn y môr a'r tonnau yn torri ar y traeth, tonnau a grëwyd yn y cynnwrf sydd rywle ynghanol Môr Iwerydd, a thonnau sy'n torri, don ar ôl ton, ar y traeth ger y pentre tywyll, unig.

Ond yna, wrth wrando daw iddo'r meddwl am Dduw, er nad Duw y gelwir ef yn y gerdd ond yr 'other being'.

Dyma ran olaf y gerdd, a'r rhan bwysica:

> And the thought comes
> of that other being who is awake, too,
> letting our prayers break on him,
> not like this for a few hours
> but for days, years, for eternity.

Nid yw'n ddyddiau da ar ein byd gyda'r holl drais a dinistr sy'n digwydd a chenhedloedd ledled daear yn mynnu eu ffordd ac yn defnyddio trais i'w gael. Ac yn y mynnu hwnnw y diniwed yn dioddef a rhai o'r golygfeydd a welwn ar ein cyfryngau torfol yn dorcalonnus.

Y mae yn ein gwlad ni dawelwch rhag ffrwydriad bom a su bwled, ac ni raid inni gysgu'r nos yn ofni'r dinistr a ddaw drwy'r awyr. Y mae yna ofn yn sicr, a gall y nos fod yn gyfnod pan mae unigrwydd yn lapio am bobl ac ofnau yn cynyddu. Ac y mae R. S. Thomas yn ei grybwyll yn ei ffordd arbennig ei hun trwy gyfeirio at y pentref sydd heb olau a heb gydymaith: 'dark and companionless'.

Ond y mae i'r nos ei bendithion hefyd: ym mynd a dod y llanw ar y traeth, yng ngalwad y dylluan a chyfarthiad pell y llwynog, synau byd natur a glyw'r sawl sy'n effro oherwydd y tawelwch, tebyg i'r chwa a ddeuai i suo Cynan – un arall o feirdd Llŷn, yr wyf wedi ei ddyfynnu o'r blaen – 'o Garn Fadryn ddistaw, bell'.

Y mae'r tawelwch yn cynnig mwy i R. S. Thomas na chlywed synau byd natur, sy'n bethau ysbeidiol yn unig; fe rydd gyfle iddo feddwl am 'that other being', sef Duw. Y mae cysylltiad y bardd â'i Dduw yn un eitha od – weithiau yn credu'n gry ynddo, weithiau'n ei amau, dro arall yn ei ddwrdio. Ond yma fe ddywed am y diogelwch sydd yn y ffaith nad rhywbeth byr ei barhad yw bod yn effro i Dduw. Na, mae'n effro bob awr, bob dydd, bob blwyddyn, a hyd dragwyddoldeb.

Dyma felly achub ar y cyfle i rannu â chi y cadernid a'r sicrwydd oedd yn sylfaen bywyd Mair, a chyfle i minnau gofio am un o'r anwylaf o ferched.

* 'The Other', R. S. Thomas. *Destinations* (1987) a *Collected Poems 1945–1990*

Elfyn Pritchard

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 25 Chwefror am 7.30yh
Mis Hanes LHDT
I nodi Mis Hanes LHDTC+, bydd Nia yn yr Almaen yn cwrdd â John Sam Jones, dyn hoyw sydd wedi bod ar daith ysbrydol ryfeddol. Cawn glywed ei stori o faddeuant, trugaredd a chariad.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 25 Chwefror, am 7:30yb a 16:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parch. Dylan Rhys, Pen-y-bont ar Ogwr

Oedfa Radio Cymru
Sul, 25 Chwefror, am 12yp
Oedfa dan ofal Gareth Morgan Jones, Pontardawe

Bwletin Polisi Cytûn, Chwefror / Mawrth 2024 – heriau a chyfleon yr eglwysi

Cytûn
Eglwysi ynghyd yng Nghymru
Churches together in Wales

Gydag addewid o etholiad cyffredinol mewn llai na blwyddyn, mae Cytûn yn eu Bwletin Polisi deufisol yn annog eglwysi a mudiadau Cristnogol i gynllunio i gynnal cyfarfodydd ag ymgeiswyr– boed hynny fel cyfarfodydd ffurfiol ('hustings') traddodiadol neu mewn fformat arall. Anogir pawb sy'n gymwys i gofrestru i bleidleisio, a phleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr i fod yn adeiladol a pharchus yn eu trafodaethau.

Bydd nifer o'r eglwysi a mudiadau Cristnogol sy'n aelodau o Cytûn yn cymryd rhan mewn cynlluniau i ganolbwyntio ar faterion sydd o bryder arbennig i Gristnogion. Ymhlith y rhain y mae:

- Cwrs y Grawys Gweithredu ar Dlodi, a hyrwyddir gan Gymorth Cristnogol, Trussell Trust, Church Action on Poverty a thair eglwys sylfaenol Let's End Poverty. Mae'n ymestyn y ffocws o dlodi yn y Deyrnas Unedig i dlodi ledled y byd, gan archwilio materion megis cymorth datblygu rhyngwladol y DU a'i record ar newid hinsawdd. Mae'r deunydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac yn cael ei gyhoeddi dros gyfnod y Grawys yn y cylchgrawn Cenn@d i'r enwadau Cymraeg.
- Mae ARocha UK (aelod o Cytûn sy'n gyfrifol am gynllun EcoChurch) yn un o aelodau gweithredol Nature 2030, clymblaid eang o fudiadau sy'n galw am ddechrau adfer y difrod i fioamrywiaeth y Deyrnas Unedig erbyn 2030, a mynd i'r afael â llygredd aer a llygredd plastig. Gan gwmpasu cymysgedd o faterion sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru ac a gadwyd yn ôl i San Steffan, mae'r ymgyrch yn bwriadu cynhyrchu adnoddau ar gyfer yr etholiad.

Ariannu Gwasanaethau Cyhoeddus dan Bwysau

Ynghanol y trafodaethau gwleidyddol mae'n siŵr y bydd ariannu yn elfen ganolog iawn.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2024/25 ar 19 Rhagfyr. Er bod y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac o drethi datganoledig wedi cynyddu mewn termau arian parod, mae cyllid ar gyfer llawer o feysydd gwariant cyhoeddus wedi'i leihau hyd yn oed yn y termau hynny – ac ym mron pob maes ar ôl ystyried chwyddiant uchel y 12 mis diwethaf.

Clywir am y bygythion i fudiadau sy'n gweithio i leihau digartrefedd, sefydliadau sy'n ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb i grwpiau o bobl dan anfantais, a'r Comisiynwyr ar gyfer Pobl Hŷn, Plant a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth iddyn nhw wynebu toriadau o 5% mewn termau arian parod. Er nad ydynt yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan lai o gyllid, mae eglwysi a chymunedau ffydd eraill yn aml yn camu i'r adwy a adewir gan lai o wasanaethau cyhoeddus, ac mae hyn yn debygol eto yn ystod 2024–25. Bydd eglwysi sydd wedi eu cartrefu mewn adeiladau hanesyddol hefyd yn bryderus iawn am y gostyngiad o dros 20% yng nghyllid Cadw.

Dyfodol Cyfansoddiadol Cymru?

Ar 17 Ionawr, cyhoeddodd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, a gyd-gadeiriwyd gan y Gwir Barchedig Ddr Rowan Williams a'r Athro Laura McAllister, ei adroddiad terfynol ar opsiynau ar gyfer dyfodol Cymru, yn dilyn sgwrs genedlaethol ddwy flynedd gyda phobl Cymru. Cewch weld yn y Bwletin a'r adroddiad terfynol beth oedd y tri opsiwn cyfansoddiadol a gynigiwyd ar gyfer Cymru.

Cyflwynodd Cytûn dystiolaeth, fel y gwnaeth yr Eglwys Gatholig ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn bennaf am y setliad datganoli presennol a materion yn codi o'r berthynas rhwng llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Danfonwyd hefyd ddogfen gan Gymdeithas y Cyfeillion am wirionedd a didwylledd mewn bywyd cyhoeddus. Ceir dadansoddiad manwl o'r ffordd y mae'r llywodraeth yn gweithio ar hyn o bryd yn yr adroddiad, sy'n adlewyrchu dymuniad yr eglwysi y dylai llywodraethu Cymru – beth bynnag fo'r fframwaith cyfansoddiadol – fod yn gydlynol, yn effeithiol ac yn gweithio er budd ei holl ddinasyddion, yn enwedig y rhai sydd fwyaf bregus neu ddibynnol ar wasanaethau cyhoeddus.

Compassionate Cymru Garedig

Ers blynyddoedd lawer, mae Cytûn wedi bod yn ymwneud â'r rhaglen Cymru Garedig, a ddechreuwyd yn wreiddiol gan y diweddar Athro Hywel Francis AS fel *Byw Nawr* (*Dying Matters* yng Nghymru), gan arwain at Siarter Tosturiol Cymru, 2020 (Saesneg yn unig). Mae'r rhaglen mewn cyfnod newydd bellach a bydd Cytûn yn parhau i gymryd rhan ar ran ein haelodau yn y cyfnod newydd hwn.

Marwolaeth, Angladdau a Galaru

Mae gan eglwysi ran ganolog wrth gynnal angladdau a chynorthwyo'r sawl sy'n galaru ledled Cymru. Yn y Bwletin, ceir gwybodaeth am dri datblygiad diweddar a fydd o ddiddordeb i'r sawl sy'n ymwneud â'r weinidogaeth hon.

Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

Gyda Pythefnos Masnach Deg ar y gorwel, da yw clywed bod Masnach Deg Cymru yn cynnig grantiau o hyd at £500 i annog cymunedau i ddathlu Masnach Deg. Eleni, rydym yn dathlu 15 mlynedd ers i Gymru ddod yn Genedl Masnach Deg gyntaf y byd, a hynny gyda chefnogaeth llawer o eglwysi a mudiadau Cytûn. Ceir cyfeiriad yn y Bwletin ar gyfer archebu nifer helaeth o adnoddau sydd ar gael i hyrwyddo Masnach Deg. Ewch ati i ddathlu!

https://masnachdeg.cymru/

Mae hyn a llawer iawn mwy o wybodaeth yn cael ei rannu gyda ni i'n hysgogi i fod yn effro fel eglwysi i'r anghenion a'r cyfleon sydd o'n hamgylch.

Diolchwn i Gethin Rhys am Baratoi Bwletin Polisi cynhwysfawr inni eto: https://www.cytun.co.uk/bwletin-polisi-chwefror-mawrth-2024/

Denis Young yn 100 oed

Cafodd y Parchedig Denis Young ddiwrnod anhygoel ar ei ben-blwydd, ddydd Llun, 12 Chwefror, gyda dros 70 o deulu a chyfeillion wedi dod o wahanol rannau o Gymru a Lloegr i ddathlu'r pen-blwydd arbennig yn ei gwmni yn Aberystwyth.

Mae am ddiolch i bawb anfonodd y cardiau niferus (ymhell dros gant), yr anrhegion lu ac i bob un wnaeth alw i'w weld ar y diwrnod. Hefyd, diolch o galon am y cyfarchion caredig oddi wrth Undeb Bedyddwyr Cymru drwy law'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Y Parchg Judith Morris, Ysgrifenyddion y Cymanfaoedd, eglwysi unigol (o wahanol enwadau) o bob cwr o Gymru, gan gynnwys ei fam eglwys Bethel, Drefach-Felindre. Hefyd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr (BMS).

Pleser o'r mwyaf oedd derbyn cyfarchion yr eglwysi y bu'n weinidog arnynt, sef Blaen-y-cwm yn Rhondda Fawr; Caersalem, Llanelli; Beulah, Cwm-twrch a Hebron, Caergybi. Hufen ar y cwbl oedd bod Geraint Davies, Ysgrifennydd Blaen-y-cwm, a'i wraig, Meril, wedi teithio o Gwm Rhondda i Aberystwyth i ymuno yn y dathlu. Dyma'r eglwys lle yr ordeiniwyd Denis yn 1954 a Geraint yn blentyn ysgol gynradd bryd hynny, a'i dad, Mr John Davies, oedd ysgrifennydd yr eglwys yn estyn yr alwad.

Arvonia a Denis Young gyda Judith Morris ar ddiwrnod pen-blwydd Denis yn 100 oed

Llawenydd hefyd oedd bod dau deulu o Gaersalem, Caernarfon, fu'n gyfeillion ffyddlon yn ystod y pandemig i'r 'Youngs', wedi dod i gyfarch un a fu'n Weinidog Anrhydeddus arnynt yng Nghaersalem.

Bu tri o'i gyd-weinidogion – y Parchedigion Denzil John, Peter Thomas a Peter Harries Davies – yn brysur yn cyfansoddi cerddi pwrpasol iawn i 'Denis Young yn gant' a chafodd gerdd hyfryd gan Morgan a Fflur a'r teulu, wedi ei chyfansoddi'n arbennig ar gyfer yr achlysur gan y Prifardd Dafydd John Pritchard.

Cafodd ymweliad gan chwe gweinidog, gan gynnwys ei weinidog presennol, Peter Thomas, ac un a fu'n weinidog iddo am sawl blwyddyn, sef John Treharne.

Llawenydd di-ben-draw iddo ac Arvonia, ei briod, oedd fod eu dwy ferch – Einir (a Mike) a Llinos; eu tri ŵyr – Tomos, Morgan (a Fflur) ac Owen; eu gorwyr, Karl Denis (14 mis) a'u gorwyres, Margo Haf (6 mis), yn bresennol – pedair cenhedlaeth gyda'i gilydd i ddathlu'r cant. Roedd cynrychiolaeth dda o ddisgynyddion ei frodyr a'i chwiorydd, sef teulu'r Youngs, Bro Hyfryd, Drefach-Felindre, yno hefyd a chawsom glywed yn y parti fod gorwyres i'w ddiweddar frawd, John Young gynt o Rydaman, wedi cael ei geni y bore hwnnw, can mlynedd union i'r diwrnod y cafodd ef ei eni!

Dyma orffen gyda'r gair fu ar wefusau Denis ar hyd y blynyddoedd – DIOLCH!

Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf, 3–10 Awst 2024: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru am 7 o'r gloch nos Iau, 21 Mawrth, yn Eglwys St Catherine yng nghanol tref Pontypridd, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd, a hynny ar 3–10 Awst 2024, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Mae'n debyg na fyddwn yn medru cael y stondin fawr arferol eleni oherwydd cyfyngder lle, a bydd yn rhaid edrych am ffyrdd gwahanol i gyflawni ein cenhadaeth.

Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddwn hefyd yn trafod trefniadau'r oedfa ar fore Sul agoriadol yr Eisteddfod.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib gyda'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

Cofio'r Parch. Tudur Rowlands

Tristwch mewn llawer ardal oedd clywed am farw'r Parchedig Tudur Rowlands, BTh, yn sydyn yn ei gartref yn y Rhewl, Rhuthun, fore Llun, 12 Chwefror. Bu'n fugail efo'r Presbyteriaid yn ardal Llanfaethlu, Ynys Môn; yn Edern, Pen-llŷn, a chylch o eglwysi ym mro Rhuthun, Dyffryn Clwyd. Ar ôl ymddeol bu'n weinidog rhan-amser ar nifer o gapeli'r Eglwys Fethodistaidd Wesleaidd yn Ninbych, gogledd y dyffryn a Rhyd-y-foel, ger Llanddulas hefyd. Cydymdeimlir yn ddwys â'i briod, Eirlys, ei blant Elin a Dafydd a'u teuluoedd, yn eu colled a'u galar.

Dyma englyn a gyflwynwyd i'r Parch. Tudur Rowlands flynyddoedd yn ôl gan ei gyfaill a chyd-fugail ym mro Rhuthun, y Parch. John Owen:

Y Parch. Tudur Rowlands
Ei ofal sydd fel halen, a'i gysur
sy'n gyson ei ddiben;
a'i Dduw sydd yn llyw llawen
i wych ŵr ddaeth o'r Fach Wen.

John Owen

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru